## Supporting Practitioners to Use Welsh with Confidence through Incidental Welsh Online Workshops

*Delivered through the CYMell project*

On 2 June 2026, a Welsh Language in Early Years and Childcare workshop was delivered to 39 childcare practitioners from a range of settings across Wales. The session focused on supporting  increasedconfidence in using Welsh indaily practice and in better understanding the principles of the Active Offer.

The workshop explored practical strategies for embedding Welsh into everyday routines, introduced Welsh-language resources, songs, and games, and provided guidance on overcoming common barriers to Welsh-language use in childcare environments.

**Learning Objectives**

Participants were supported to:

- Identify practical ways to overcome barriers to using Welsh in childcare settings.
- Understand the purpose and principles of the Active Offer.
- Explore Welsh language resources that support children's learning and development.
- Develop confidence in using simple Welsh phrases and routines.
- Access Welsh language learning opportunities, including Camau courses.
- Create realistic action plans for increasing Welsh language use within their settings.

An interactive poll (see figure 1) conducted at the beginning of the workshop revealed varying levels of confidence among participants in using Welsh within their childcare settings. Most participants described themselves as "not yet confident", while a smaller number reported being "somewhat confident", and only a few considered themselves "very confident". Participants identified a range of factors that influenced their confidence, including a lack of fluent Welsh-speaking staff, limited opportunities to practise Welsh, concerns about pronunciation, fear of making mistakes, working in predominantly English-speaking communities, limited Welsh vocabulary, and the challenges of supporting children from multilingual backgrounds. Comments such as, “Not fluent, can’t reply if someone continues in Welsh,” “Many English-speaking staff lack confidence,” and “Don’t want to seem silly in front of the children,” reflected a common theme throughout the discussion. The findings highlighted that the main barrier to increasing the use of Welsh was not a lack of enthusiasm or commitment, but a lack of confidence and opportunities to practise and develop language skills.




Participants also highlighted the need for more practical resources, tools, and support to help them embed Welsh more confidently into everyday practice.

**Workshop Approach**

The workshop demonstrated that practitioners do not need to be fluent in Welsh to provide meaningful Welsh language experiences for children. Participants explored a range of practical strategies to increase the use of Welsh, including incorporating Welsh into daily routines, play activities, transitions, learning environments, and celebrations of Welsh culture. The session emphasised that small, consistent actions can significantly increase children's exposure to Welsh and help build staff confidence over time. Participants also developed their understanding of the Active Offer and how childcare settings can proactively create opportunities for children and families to engage with the Welsh language.

**Participant Feedback**

Feedback from participants was overwhelmingly positive, with the session being described as helpful, informative, encouraging, motivational, and confidence-building. Participants particularly valued the practical nature of the workshop, the realistic strategies that could be easily implemented within their settings, and the reassurance that fluency in Welsh is not required to provide meaningful Welsh language experiences. Many also appreciated the opportunity to share ideas and experiences with colleagues, leaving the session feeling more confident and motivated to increase their use of Welsh in everyday practice.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Prosiect CYMell Project

Describe the session in one word | Disgrifiwch y sesiwn mewn un gair

| | | | |
|---|---|---|---|
| excellent | Helpful | Bendigedig | Motivational |
| informative | Bendigedig | Ardderchog | Gwych |

**Outcomes and Conclusions**

The workshop successfully increased participants' awareness, confidence, and motivation to use Welsh more frequently within their childcare settings. While many attendees initially reported low confidence levels, the session helped them recognise the Welsh language skills they already had and identify realistic, achievable steps for further development. Through a focus on practical strategies, daily routines, and the Active Offer, participants left with clear actions and resources to support increased Welsh language use. Overall, the workshop equipped the 39 practitioners with the confidence and tools needed to strengthen Welsh language provision and create more opportunities for children to hear, use, and enjoy Welsh in everyday practice.

The workshop demonstrates how targeted, practical professional development can support childcare practitioners to embed Welsh language experiences naturally and confidently within everyday practice.

Key success indicators from the workshop included the attendance of 39 practitioners, high levels of engagement throughout interactive discussions and activities, and participants recognising the Welsh language practices already taking place within their settings. The session provided a supportive space to explore and address common barriers to using Welsh, while every respondent identified at least one practical action they would implement following the training. Feedback consistently demonstrated increased confidence, motivation, and commitment to using Welsh more regularly in everyday practice.

## Cefnogi Ymarferwyr i Ddefnyddio'r Gymraeg yn Hyderus drwy Weithdai Cymraeg Achlysurol Ar-lein

*Cyflawnwyd drwy'r prosiect CYMell*

Ar 2 Mehefin 2026, cyflwynwyd gweithdy Cymraeg mewn Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i 39 o ymarferwyr gofal plant o ystod o leoliadau ledled Cymru. Canolbwyntiodd y sesiwn ar gefnogi cynnydd mewn hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn arferion beunyddiol ac ar wella dealltwriaeth o egwyddorion y Cynnig Gweithredol.


Archwiliodd y gweithdy strategaethau ymarferol ar gyfer gwreiddio'r Gymraeg mewn arferion beunyddiol, cyflwynodd adnoddau, caneuon a gemau Cymraeg, a darparodd arweiniad ar sut i oresgyn rhwystrau cyffredin i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylcheddau gofal plant.

**Amcanion Dysgu**

Cafodd ymarferwyr gefnogaeth i:

- Nodi ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau er mwyn defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant.
- Deall pwrpas ac egwyddorion y Cynnig Gweithredol.
- Archwilio adnoddau Cymraeg sy'n cefnogi dysgu a datblygiad plant.
- Datblygu hyder wrth ddefnyddio ymadroddion ac arferion Cymraeg syml.
- Cyrchu cyfleoedd dysgu Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau Camau.
- Creu cynlluniau gweithredu realistig ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliadau.

Dangosodd arolwg rhyngweithiol (gweler ffigur 1), a gynhaliwyd ar ddechrau'r gweithdy, fod lefelau hyder amrywiol ymhlith cyfranogwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau gofal plant. Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu hunain fel rhai "ddim yn hyderus eto", tra nododd nifer llai eu bod "rhywfaint yn hyderus", a dim ond ychydig oedd yn ystyried eu hunain yn "hyderus iawn". Nododd cyfranogwyr ystod o ffactorau a oedd yn dylanwadu ar eu hyder, gan gynnwys diffyg staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, cyfleoedd cyfyngedig i ymarfer y Gymraeg, pryderon ynghylch ynganu, ofn gwneud camgymeriadau, gweithio mewn cymunedau lle mae'r Saesneg yn bennaf, geirfa Gymraeg gyfyngedig, a'r heriau o gefnogi plant o gefndiroedd amlieithog. Roedd sylwadau megis, "Ddim yn rhugl, ni allaf ymateb os bydd rhywun yn parhau drwy'r Gymraeg," "Mae diffyg hyder gan lawer o staff sy'n siarad Saesneg," a "Dydw i ddim eisiau edrych yn wirion o flaen y plant," yn adlewyrchu thema gyffredin drwy gydol y drafodaeth. Amlygodd y canfyddiadau nad diffyg brwdfrydedd nac ymrwymiad oedd y prif rwystr i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ond diffyg hyder a chyfleoedd i ymarfer a datblygu sgiliau ieithyddol.




Amlygodd cyfranogwyr yr angen am ragor o adnoddau ymarferol, offer a chefnogaeth i'w helpu i wreiddio'r Gymraeg yn fwy hyderus mewn arferion beunyddiol.

**Dull y Gweithdy**

Dangosodd y gweithdy nad oes angen i ymarferwyr fod yn rhugl yn y Gymraeg i ddarparu profiadau Cymraeg ystyrlon i blant. Archwiliodd y cyfranogwyr ystod o strategaethau ymarferol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys ymgorffori'r Gymraeg mewn arferion beunyddiol, gweithgareddau chwarae, cyfnodau pontio, amgylcheddau dysgu a dathliadau sy'n ymwneud â diwylliant Cymreig. Pwysleisiodd y sesiwn fod camau bach, cyson yn gallu cynyddu profiadau Cymraeg plant a helpu i feithrin hyder staff dros amser. Datblygodd y cyfranogwyr eu dealltwriaeth o'r Cynnig Gweithredol a sut y gall lleoliadau gofal plant greu cyfleoedd yn rhagweithiol i blant a theuluoedd ymgysylltu â'r Gymraeg.

**Adborth gan Gyfranogwyr**

Roedd adborth gan gyfranogwyr yn hynod gadarnhaol, gyda'r sesiwn yn cael ei disgrifio'n ddefnyddiol, yn addysgiadol, yn galonogol, yn ysbrydoledig ac yn un a oedd yn meithrin hyder. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi natur ymarferol y gweithdy yn arbennig, y strategaethau realistig y gellid eu rhoi ar waith yn hawdd yn eu lleoliadau, a'r sicrwydd nad oes angen bod yn rhugl yn y Gymraeg i ddarparu profiadau Cymraeg ystyrlon. Roedd llawer hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu syniadau a phrofiadau gyda chydweithwyr, gan adael y sesiwn yn teimlo'n fwy hyderus ac wedi'u hysgogi i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn arferion beunyddiol.

Describe the session in one word | Disgrifiwch y sesiwn mewn un gair

| | | | |
|---|---|---|---|
| excellent | Helpful | Bendigedig | Motivational |
| informative | Bendigedig | Ardderchog | Gwych |

**Canlyniadau a Chasgliadau**

Llwyddodd y gweithdy i gynyddu ymwybyddiaeth, hyder a chymhelliant y cyfranogwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn rheolaidd yn eu lleoliadau gofal plant. Er bod llawer o fynychwyr wedi nodi lefelau hyder isel ar y dechrau, helpodd y sesiwn iddynt adnabod y sgiliau Cymraeg roedd ganddynt eisoes a nodi camau realistig a chyraeddadwy ar gyfer datblygiad pellach. Drwy ganolbwyntio ar strategaethau ymarferol, arferion beunyddiol a'r Cynnig Gweithredol, gadawodd y cyfranogwyr gyda chamau ac adnoddau i gefnogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. Ar y cyfan, darparodd y gweithdy'r offer a'r hyder yr oedd eu hangen ar 39 o ymarferwyr i gryfhau darpariaeth Gymraeg a chreu mwy o gyfleoedd i blant glywed, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg mewn arferion beunyddiol.

Dangosodd y gweithdy sut y gall datblygiad proffesiynol ymarferol wedi'i dargedu gefnogi ymarferwyr gofal plant i wreiddio profiadau Cymraeg naturiol a hyderus mewn arferion beunyddiol.

Roedd dangosyddion allweddol y gweithdy hwn yn cynnwys presenoldeb 39 o ymarferwyr, lefelau uchel o ymgysylltu drwy gydol y trafodaethau a'r gweithgareddau rhyngweithiol, ac ymarferwyr yn cydnabod yr arferion iaith Gymraeg a oedd eisoes ar waith yn eu lleoliadau. Darparodd y sesiwn le cefnogol i archwilio a mynd i'r afael â rhwystrau cyffredin wrth ddefnyddio'r Gymraeg, tra nododd pob ymatebwr o leiaf un weithred y byddent yn ei rhoi ar waith ar ôl yr hyfforddiant. Roedd yr adborth yn dangos cynnydd cyson mewn hyder, cymhelliant ac ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd mewn arferion beunyddiol.